

Cynghorion ar dynnu **LLUNIAU** da

Er yr hoffai Swyddfa Wasg y Brifysgol allu dod i bob digwyddiad yn y Brifysgol, dydy hynny ddim yn ymarferol bosib! Mae gan y rhan fwyaf o staff ffôn clyfar neu gamera, felly dyma ychydig o gynghorion i'ch helpu chi i greu delweddau addas i'w defnyddio gan y cyfryngau neu ar sianelau cyfryngau cymdeithasol:

Y DDELWEDD

Y nod yw cyfleu eich stori mewn delwedd - felly meddylwch am bropiau, lleoliad a chynnwrf.



MAE'N WELL BOD YN GYNNIL:

Ceisiwch gyfyngu nifer y bobl sydd yn y llun i dri os yn bosib.

Gwnewch yn siŵr bod pawb yn edrych i'r un cyfeiriad. Mewn digwyddiad prysur, gwnewch yn siŵr nad oes mwy nag un ffotograffydd yn cymryd llun ar yr un pryd.

TOCIWCH YN AGOS:

Nid llun gwyliau yw hwn! Does dim angen i ni weld y person cyfan na'r cefndir.



CANIATÂD:

Dylai'r sawl y tynnir eu llun fod yn ymwybodol o le y caiff y llun ei ddefnyddio a byddwch angen gofyn am eu **caniatâd** ysgrifenedig.

Eithriad: pan fo llun yn cael ei dynnu o ddigwyddiad cyhoeddus, fel Ffair Nadolig, lle y byddai'n anymarferol gofyn am ganiatâd pawb, ond lle nad oes unrhyw unigolyn yn ganolbwynt arbennig neu nad oes modd eu hadnabod.

Os ydych chi'n cymryd lluniau o bobl ifanc o **dan 18 oed** rhaid i chi gael cydsyniad rhiant neu warchodwr. Os ydych yn gwahodd ysgolion i anfon plant i ddigwyddiad, gellir gofyn am ganiatâd trwy'r ysgol cyn y digwyddiad.

Mae ffurflenni rhyddhau delweddau ar gael gan **press@bangor.ac.uk**

PROFFIL

Ffeindiwch gefndir syml.

OSGOWCH RESI O BOBL:

Osgowch dueddiad naturiol pobl i sefyll o flaen wal, mae hynny'n siŵr o olygu sefyll mewn rhes!

GWIRIWCH EICH FFLACH:

If you have a flash on, this may give you a shadow on the wall or the flash will be visible in any shiny surfaces.

CAEWCH Y BWLCH:

CAEWCH y bylchau naturiol rhwng pobl.

Mae'r gwyliwr angen gweld wynebau pobl o'r ochr.

Mae troi ysgwydd at y camera yn golygu proffil **MWY DIDDOROL**.

GWNEWCH IDDYN NHW WENU:

Byddwch yn barod â jôc neu sylw ysgafn pwrpasol i ddal **GWÊN** naturiol.

MAE GOLEUO YN ALLWEDDOL:

Defnyddiwch olau **NATURIOL** lle bo hynny'n bosib.

GORAU PO FWYAF:

Cymerwch **FWY** o luniau nag ydych eu hangen a dewiswch y portread a'r tirlun gorau.



 tirlun

 portread



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r Wasg - am fwy o gyngorion yn ymwneud â'r cyfryngau, anfonwch e-bost at press@bangor.ac.uk